Pembrokeshire County Council
Cyngor Sir Penfro
Inclusion Service
Gwasanaeth Cynhwysiant

Polisi Anghenion Gofal Iechyd Enghreifftiol

(yn seiliedig ar Ddogfen Ganllawiau Llywodraeth Cymru 215/2017, Dyddiad Cyhoeddi Mawrth 2017)

Nichola Jones
Head of Inclusion and Disabilities

Manylion Cyswllt:

Polisi Anghenion Gofal Iechyd i *(Enw Ysgol)*	
Dyddiad Cyhoeddi:	
Dyddiad Adolygu: *(Argymhellir gan Lywodraeth Cymru fod y polisi'n cael ei adolygu'n flynyddol))*	
Cyfeiriad Ysgol a Chod Post:	
Rhif Ffôn Ysgol:	
Cyfeiriad E-bost Ysgol:	
Cyfeiriad Gwefan ar gyfer y polisi hwn: *(Rhowch gyfeiriad arall os ydyw'n wahanol i brif gyfeiriad e-bost yr ysgol)*	
Enw'r person sy'n gyfrifol am gynnal y polisi hwn:	

Egwyddorion allweddol

Mae Canllawiau LIC yn mynnu bod yr egwyddorion hyn yn cael eu cynnwys.
Wrth ddatblygu'r polisi hwn, mae'r ysgol wedi ystyried yr egwyddorion canlynol a amlinellir yng nghanllawiau statudol Llywodraeth Cymru *'Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd'* (*Mawrth 2017*):

- ☐ Dylai staff ddeall a gweithio o fewn egwyddorion cynhwysiant.
- Bydd gwersi a gweithgareddau yn cael eu cynllunio mewn ffordd sy'n caniatáu i'r rhai sydd ag anghenion gofal iechyd gymryd rhan lawn.
- Dylai staff ddeall eu rôl wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd a dylid darparu hyfforddiant priodol.
- ☐ Dylai staff deimlo'n hyderus eu bod yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng gofal iechyd.
- ☐ Dylai staff fod yn ymwybodol o anghenion eu dysgwyr trwy rannu anghenion gofal iechyd y dysgwr unigol yn briodol ac yn gyfreithlon.
- ☐ Lle bo'n briodol, dylid annog a chefnogi dysgwyr i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain.

Mae Canllawiau LIC yn nodi:
Rhaid i gyrff llywodraethu ystyried y canllawiau statudol *'Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd' (Mawrth 2017)* wrth gyflawni eu dyletswyddau i hyrwyddo lles plant sy'n ddysgwyr yn yr ysgol, gan gynnwys diwallu eu hanghenion gofal iechyd. Mae'r arweiniad hefyd yn berthnasol i weithgareddau sy'n digwydd oddi ar y safle fel rhan o weithgareddau addysgol arferol.

Mae Adran 21 (5) o Ddeddf Addysg 2002 yn gosod dyletswydd ar gyrff llywodraethu i hyrwyddo lles dysgwyr yn yr ysgol i'r graddau y mae'n gysylltiedig â'r materion a grybwyllir yn adran 25 (2) o Ddeddf Plant 2004, sy'n cynnwys iechyd corfforol ac iechyd meddwl a lles emosiynol, addysg, hyfforddiant a hamdden, a lles cymdeithasol.

Mae gan bob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd yr hawl i addysg lawn. Yn ychwanegol at y dyletswyddau a nodir uchod (Deddf Addysg 2002), rhaid ystyried hefyd a yw'r dysgwr wedi'i ddiffinio fel anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rhaid i gyrff llywodraethu gydymffurfio â dyletswyddau'r Ddeddf hon, gan gynnwys y rhai hynny mewn cyd-destun addysg. Er enghraifft, rhaid gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr anabl ac ni ddylid gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr anabl wrth wneud trefniadau derbyn. Wrth ddrafftio'r canllawiau a'r cyngor statudol, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

Rhaid i gyrff llywodraethu roi sylw i Ddeddf Diogelu Data 1998. Mae hon yn rheoleiddio prosesu data personol, sy'n cynnwys ei gadw a'i ddatgelu. Os yw cyffuriau rheoledig wedi eu rhagnodi i ddysgwyr, bydd Deddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 hefyd yn berthnasol.

Swyddogaeth a chyfrifoldebau

Cymerwyd y wybodaeth hon o Ganllawiau LIC:

Dylai'r **Corff Llywodraethu** oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu trefniadau ar gyfer dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys:

- cydymffurfio â dyletswyddau statudol perthnasol, gan gynnwys y rhai dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

bod â dyletswydd statudol i hyrwyddo lles dysgwyr, e.e. trwy ddarparu i ddysgwyr fynediad at wybodaeth a deunydd sydd wedi'u hanelu at hyrwyddo lles ysbrydol a moesol ac iechyd corfforol a meddyliol (Erthygl 17 Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).

☐)

☐ ystyried sut y gallant gefnogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r gwytnwch emosiynol sydd eu hangen i gynnal eu hawliau, a hawliau eraill

- sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau pawb sy'n ymwneud â'r trefniadau i gefnogi anghenion gofal dysgwyr yn glir ac yn ddealladwy i bawb sy'n ymwneud â'r gwaith, gan gynnwys dirprwyo cyfrifoldebau neu dasgau priodol i bennaeth, aelod o staff neu weithiwr proffesiynol fel y bo'n briodol
- cydweithio â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill i ddatblygu trefniadau gofal iechyd er mwyn diwallu buddiannau gorau'r dysgwr

☐ datblygu a gweithredu trefniadau effeithiol i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Dylai hyn gynnwys, lle bo'n briodol, Gynlluniau Gofal Iechyd Unigol ar gyfer dysgwyr penodol

☐ sicrhau bod trefniadau ar waith i ddatblygu, monitro ac adolygu'r trefniadau anghenion gofal iechyd

- sicrhau bod y trefniadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill, megis iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, asesiadau risg, Deddf Diogelu Data 1998, mesurau diogelu a gweithdrefnau argyfwng

☐ sicrhau bod systemau cadarn ar waith i ddelio ag argyfyngau gofal iechyd a digwyddiadau critigol, ar gyfer gweithgareddau ar y safle ac oddi ar y safle, gan gynnwys mynediad at feddyginiaeth argyfwng megis anadlyddion neu binnau adrenalin

☐ sicrhau bod staff sy'n gyfrifol am gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd wedi'u hyfforddi'n briodol

- sicrhau bod yswiriant priodol yn ei le, y cydymffurfir ag unrhyw amodau a bod staff yn deall yn iawn yr hyn y mae'n rhaid iddynt wneud i gefnogi dysgwyr
- ☐ cael polisi atal haint sy'n adlewyrchu'n llawn y gweithdrefnau a nodir yn y canllawiau cyfredol fel y manylir arnynt yn www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/home

Dylai'r Pennaeth sicrhau bod trefniadau i ddiwallu anghenion gofal iechyd eu dysgwyr wedi'u datblygu'n ddigonol a'u gweithredu'n effeithiol. Mae hyn yn cynnwys:

- gweithio gyda'r corff llywodraethu i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol perthnasol wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- sicrhau bod yr holl bartïon sy'n ymwneud â'r gwaith yn deall yn llawn y trefniadau sydd yn eu lle i ddiwallu anghenion gofal iechyd y dysgwr, a bod camau o'r fath yn cael eu cynnal. Gellir dirprwyo'r gwaith o reoli anghenion gofal iechyd dysgwr o ddydd i ddydd i aelod arall o staff ond bydd y pennaeth yn goruchwylio'r trefniant hwn yn uniongyrchol
- ☐ sicrhau bod y gefnogaeth a roddir yn ei lle yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr unigol ac yn eu diwallu
- ymestyn ymwybyddiaeth o anghenion gofal iechyd ar draws y lleoliad addysg yn unol â hawl y dysgwr i breifatrwydd. Gall hyn gynnwys staff cymorth, arlwyo a chyflenwi, llywodraethwyr, rhieni a dysgwyr eraill
- pan fo'n briodol, penodi aelod o staff a fydd yn gyfrifol am ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, cadw mewn cysylltiad â rhieni, dysgwyr, yr awdurdod lleol ac eraill sy'n ymwneud â gofal y dysgwr
- ☐ sicrhau bod digon o staff hyfforddedig ar gael i weithredu'r trefniadau a nodir ym mhob Cynllun Gofal Iechyd Unigol, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng ac absenoldeb staff
- ☐ cael y cyfrifoldeb cyffredinol dros ddatblygu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol
- ☐ sicrhau bod gan ddysgwyr amgylchedd priodol ac urddasol i gyflawni eu hanghenion gofal iechyd, e.e. ardaloedd toiledau preifat ar gyfer cathetreiddio
- holi'r awdurdod lleol a yw gweithgareddau penodol i gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael eu hyswirio'n briodol a gwneud staff yn ymwybodol o unrhyw derfynau i'r gweithgareddau sy'n cael eu hyswirio
- sicrhau bod yr holl ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd wedi'u cysylltu'n briodol â gwasanaeth nyrsys yr ysgol
- sicrhau pan fydd dysgwr yn cymryd rhan mewn lleoliad profiad gwaith neu debyg, bod y gefnogaeth gofal iechyd priodol wedi'i gytuno a'i roi ar waith *(ar gyfer ysgolion uwchradd)*

- ☐ darparu adroddiadau blynyddol i'r corff llywodraethu ar effeithiolrwydd y trefniadau sydd yn eu lle i ddiwallu anghenion gofal iechyd dysgwyr
- sicrhau nad yw unrhyw ddysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael ei eithrio o weithgareddau y byddent fel arfer â'r hawl i gymryd rhan ynddynt heb reswm clir yn seiliedig ar dystiolaeth
- ☐ hysbysu'r awdurdod lleol pan fydd dysgwr yn debygol o fod i ffwrdd o'r lleoliad addysg am fwy na thair wythnos oherwydd eu hanghenion gofal iechyd
- ☐ bod yn ymwybodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 trwy sicrhau bod cymorth i ddysgwyr yn cael ei ddarparu gan ddefnyddio dull cyfannol

Gellir gofyn i unrhyw aelod o staff ddarparu cefnogaeth i ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys cynorthwyo neu oruchwylio gweini meddyginiaethau. Mae hyn yn cynnwys:

• Athrawon, staff cymorth ac aelodau eraill o staff
• Aelodau dynodedig o staff sy'n cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd
• Cynorthwywyr cymorth cyntaf yr ysgol

Fodd bynnag, mae'r rôl hon yn hollol wirfoddol a bydd aelodau staff yn cael hyfforddiant digonol ac addas ac yn cyflawni'r lefel cymhwysedd angenrheidiol cyn iddynt gymryd y cyfrifoldeb. Bydd gweini a goruchwylio meddyginiaeth yn rhan o'u contract, telerau ac amodau neu gynllun swydd a gytunwyd ar y cyd. Bydd yr ysgol yn sicrhau bod y staff dan sylw:

- yn deall polisïau a threfniadau anghenion gofal iechyd yr ysgol yn llawn
- yn gwybod pa ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd mwy difrifol neu gronig, a, lle bo'n briodol, yn gyfarwydd â Chynlluniau Gofal Iechyd Unigol y dysgwyr hyn. Mae hyn yn cynnwys gwybod sut i gyfathrebu â rhieni a beth yw'r sbardunau ar gyfer cysylltu â hwy, megis pan fo'r dysgwr yn sâl, yn gwrthod cymryd meddyginiaeth neu'n gwrthod rhai gweithgareddau oherwydd eu hanghenion gofal iechyd
- yn ymwybodol o arwyddion, symptomau a sbardunau cyflyrau meddygol cyffredin sy'n bygwth bywyd ac yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng. Mae hyn yn cynnwys gwybod pwy yw'r cynorthwywyr cyntaf a cheisio eu cymorth os bydd argyfwng meddygol yn digwydd
- yn deall gweithdrefnau argyfwng yr ysgol yn llawn ac yn barod i weithredu mewn argyfwng
- gofyn a gwrando ar farn dysgwyr a'u rhieni, y dylid eu hystyried wrth roi cefnogaeth yn ei lle

- sicrhau bod dysgwyr (neu eu ffrindiau) yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn teimlo'n sâl, angen cymorth neu os oes newid i'r gefnogaeth
- gwrando ar bryderon dysgwyr os ydynt yn teimlo'n sâl ar unrhyw adeg ac ystyried yr angen am gymorth meddygol (yn enwedig mewn achos lle adroddir bod yna anawsterau anadlu)
- sicrhau nad yw dysgwyr ag anghenion gofal iechyd wedi'u heithrio o weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt heb reswm clir sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys unrhyw deithiau / ymweliadau allanol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan ddysgwyr fynediad at eu meddyginiaeth a bod aelod o staff sydd wedi'i hyfforddi'n briodol yn bresennol i gynorthwyo lle bo angen
- yn ymwybodol o faterion bwlio a lles emosiynol mewn perthynas â dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, ac yn barod i ymyrryd yn unol â pholisi'r ysgol
- yn ymwybodol y gall anghenion gofal iechyd effeithio ar allu'r dysgwr i ddysgu ac amlygu'r angen posibl am help ychwanegol
- sicrhau bod dysgwyr sydd wedi bod yn absennol yn cael eu cynorthwyo i ddal i fyny ar waith a gollwyd
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am sut mae'r angen gofal iechyd yn effeithio ar y dysgwr yn yr ysgol. Gall hyn gynnwys adrodd am unrhyw ddirywiad, pryderon neu newidiadau i drefniadau dysgwr neu staff.

Dylai rhieni / gofalwyr gymryd rhan weithredol wrth gynllunio cymorth a rheoli anghenion gofal iechyd. Dylent:

- dderbyn diweddariadau ynglŷn â materion gofal iechyd / newidiadau sy'n digwydd yn yr ysgol
- bod yn rhan o greu, datblygu ac adolygu'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol (os oes). Dylent gymryd rhan lawn mewn trafodaethau ynglŷn â sut y bydd anghenion gofal iechyd y dysgwr yn cael eu diwallu yn y lleoliad addysg, a dylent gyfrannu at ddatblygiad eu Cynllun Gofal Iechyd Unigol, a chydymffurfiad ag ef
- darparu gwybodaeth ddigonol a diweddar i'r ysgol am anghenion gofal iechyd, gan gynnwys unrhyw ganllawiau ynghylch gweini meddyginiaethau a / neu driniaeth gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol. Lle bo'n briodol, caiff dysgwyr eu hannog a'u galluogi i reoli eu hanghenion gofal iechyd eu hunain
- hysbysu'r ysgol o unrhyw newidiadau megis math o feddyginiaeth, dos neu ddull gweini
- darparu meddyginiaethau cyfredol perthnasol, wedi'u labelu'n gywir, gyda chyfarwyddiadau dos a gweini ysgrifenedig
- sicrhau bod oedolyn enwebedig o fewn cyrraedd cyswllt bob amser a bod yr holl ffurflenni angenrheidiol yn cael eu llenwi a'u llofnodi
- hysbysu'r ysgol os yw eu plentyn wedi cael clefyd neu gyflwr heintus tra buont yn yr ysgol.

Fel gyda rhieni / gofalwyr, dylai dysgwyr cymryd rhan weithredol mewn cynllunio'r gwaith o gefnogi a rheoli eu hanghenion gofal iechyd. Yn ychwanegol at yr uchod, bydd y dysgwr, lle bo modd:

• yn hysbysu eu rhiant / gofalwr neu aelod o staff os ydynt yn teimlo'n sâl
• yn ofalus wrth gludo meddyginiaethau i'r ysgol ac oddi yno, ac yn peidio â'u rhannu ag eraill
• yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch rhannu/cyfrinachedd gwybodaeth bersonol.

Bydd yr ysgol yn gweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau bod y dyletswyddau a'r gofynion cyfreithiol yn cael eu diwallu o ran dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Byddai hyn yn cynnwys gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr ag anableddau, gan hyrwyddo cydweithrediad rhwng gwahanol gyrff neu weithwyr proffesiynol, gan sicrhau bod dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn derbyn addysg addas, a sicrhau y gellir darparu'r cymorth a bennir o fewn Cynllun Gofal Iechyd Unigol yn effeithiol.

Bydd yr ysgol yn gweithio gyda gwasanaeth nyrsio iechyd Ysgolion GIG Cymru a all gynnig cyngor yn ymwneud â:

• datblygu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol
• nodi'r hyfforddiant sydd ei angen i'r ysgol allu gweithredu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol yn llwyddiannus
• cefnogi staff i weithredu Cynllun Gofal Iechyd Unigol dysgwr trwy gysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill ym meysydd gofal iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector.

Bydd mynediad at gyngor a chymorth iechyd hefyd trwy weithwyr iechyd proffesiynol arbenigol eraill gan gynnwys meddygon teulu, paediatregwyr, therapyddion iaith a lleferydd, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, dietegwyr a nyrsys diabetes arbenigol.

Creu amgylchedd hygyrch

Bydd angen i'r rhan hon o'r polisi amlinellu sut mae'ch ysgol yn gynhwysol ac yn hygyrch i'ch dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, gan gynnwys:

• mynediad corfforol i adeiladau / adeiladau ysgol;
• addasiadau rhesymol – cymhorthion neu wasanaethau ategol;

• teithiau dydd ac ymweliadau preswyl;
• rhyngweithiadau cymdeithasol, e.e. clybiau a gweithgareddau cymdeithasol;
• ymarfer corff a gweithgarwch corfforol;
• rheoli bwyd; a
• ymgymryd ag unrhyw asesiadau risg angenrheidiol

Rhoddir enghreifftiau o'r math o wybodaeth y gellir ei chynnwys isod ac mae'n adlewyrchu cynnwys Canllawiau LIC ond efallai y byddai'n well gan ysgolion newid hyn a rhoi manylion sy'n ymwneud yn benodol â'u lleoliad:

Mynediad corfforol i adeiladau ysgol – Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, bydd yr ysgol yn paratoi a chynnal cynllun hygyrchedd a fydd yn berthnasol i gyfnod penodedig, yn destun ymgynghoriad, ar gael i'w harchwilio a'i adolygu'n rheolaidd.

Addasiadau rhesymol–cymhorthion neu wasanaethau ategol – Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, bydd yr ysgol yn gwneud 'addasiadau rhesymol' ar gyfer dysgwyr sy'n anabl fel y diffinnir hyn gan y Ddeddf. Lle bo'n briodol, cymerir cyngor ynghylch y defnydd o gymhorthion neu wasanaethau ategol.

Teithiau dydd ac ymweliadau preswyl – Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod yr ysgol yn cefnogi pob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd i gymryd rhan mewn teithiau ac ymweliadau. Byddant yn sicrhau bod yr ysgol yn gwneud addasiadau rhesymol i deithiau ac ymweliadau preswyl gan sicrhau cyfranogiad llawn pob dysgwr. Fe wneir staff yn ymwybodol o sut y gall anghenion gofal iechyd y dysgwr effeithio ar gyfranogiad, a cheisio darparu ar gyfer unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n cynyddu'r lefel cyfranogiad y dysgwr. Rhoddir ystyriaeth i sut i ddarparu ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol gyda thrydydd partïon os bydd angen ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle (yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a chan barchu hawl y dysgwr i breifatrwydd). Gall hyn gynnwys gwybodaeth am anghenion gofal iechyd dysgwyr, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gefnogaeth ychwanegol, meddyginiaeth neu offer sydd eu hangen.

Rhyngweithio cymdeithasol – Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod cyfranogiad dysgwyr ag anghenion gofal iechyd yn cael ei ystyried yn ddigonol mewn gweithgareddau cymdeithasol strwythuredig a di–strwythur, megis amserau egwyl, clwb brecwast, cynyrchiadau ysgol, clybiau ar ôl ysgol ac ymweliadau preswyl. Bydd staff yn ymwybodol o'r rhwystrau cymdeithasol y gall dysgwyr ag anghenion gofal iechyd eu profi a sut y gall hyn arwain at fwlio ac allgau cymdeithasol.

Ymarfer corff a gweithgarwch corfforol – Mae'r ysgol yn deall ei bod yn

hollbwysig bod pob dysgwr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol a bydd yn gwneud addasiadau priodol i chwaraeon a gweithgareddau eraill i'w gwneud yn hygyrch i bob dysgwr, gan gynnwys clybiau ar ôl ysgol a chwaraeon tîm. Os oes angen, ceisir arweiniad wrth ystyried sut y gall cyfranogiad mewn gweithgareddau chwaraeon neu weithgareddau eraill effeithio ar ddysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Bydd yr ysgol yn ymdrechu i osgoi cael 'darpariaethau arbennig' ar wahân ar gyfer gweithgareddau penodol a bydd pwyslais ar weithgareddau sydd ar gael i bawb. Lle na fydd hyn yn bosibl efallai, gofynnir am gyngor gan weithwyr proffesiynol ym meysydd gofal iechyd neu addysg gorfforol a chan y dysgwr. Bydd staff hefyd yn ymwybodol y gall fod yn briodol i rai dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd fod â meddyginiaeth neu fwyd gyda hwy yn ystod gweithgaredd corfforol; bydd dysgwyr o'r fath yn cael eu hannog i gymryd y feddyginiaeth neu'r bwyd pan fo angen.

Rheoli bwyd – Rhoddir ystyriaeth i anghenion dietegol y dysgwyr a bydd bwydlenni yn cael eu rhoi i rieni a dysgwyr, gyda rhestrau cyflawn o gynhwysion a gwybodaeth am faeth. I ddysgwyr lle mae angen cymeriant caloriffig uchel, bydd mynediad bob amser at fwyd a diodydd sy'n llawn glwcos. Bydd bwyd a ddarperir ar gyfer teithiau yn adlewyrchu anghenion dietegol a thriniaeth y dysgwyr sy'n cymryd rhan. Ni fydd dysgwyr sy'n gorfod bwyta neu yfed fel rhan o'u cyflwr yn cael eu cau allan o'r ystafell ddosbarth.

Cynnal asesiadau risg – Dylid hysbysu'r staff pan fo asesiad risg yn ei le a phryd y bydd angen un. Bydd yr asesiadau'n cychwyn o'r rhagdybiaeth o gynhwysiant a bydd proses o geisio addasiadau neu weithgareddau amgen yn hytrach na darpariaeth ar wahân yn rhan annatod ohonynt.

Rhannu gwybodaeth

Bydd angen i'r rhan hon o'r polisi amlinellu sut y bydd eich ysgol yn cyfathrebu gwybodaeth yn effeithiol a chyfrinachol, gangynnwys:

• gydag athrawon, athrawon cyflenwi a staff cymorth (gall hyn gynnwys staff eraill megis staff arlwyo neu gontractwyrperthnasol)

• gyda rhieni / gofalwyr a dysgwyr.

Rhoddir enghreifftiau o'r math o wybodaeth y gellir ei chynnwys isod ac mae'n adlewyrchu cynnwys Canllawiau LIC ond gellwch ddefnyddio gwybodaeth sy'n ymwneud yn benodol â'ch ysgol yn lle hynny:

Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod trefniadau anghenion gofal iechyd, polisïau ysgol ehangach a Chynlluniau Gofal Iechyd Unigol fel ei gilydd, yn cael eu cyfleu yn glir i staff, rhieni a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n llawn. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei diweddaru'n rheolaidd, a bydd y dysgwr a'r rhiant yn cytuno ar yr holl dechnegau rhannu gwybodaeth megis hysbysfyrddau staff a mewnrwyd yr ysgol cyn eu defnyddio, er mwyn diogelu cyfrinachedd.

Bydd gwybodaeth sy'n ymwneud â dysgwyr ag anghenion meddygol ar gael yn hawdd i athrawon, athrawon cyflenwi a staff cymorth (gall hyn gynnwys staff arlwyo a chontractwyr perthnasol). Yn dilyn caniatâd priodol, bydd y wybodaeth yn cael ei harddangos ar hysbysfwrdd yn ystafell y staff. Defnyddir yr hysbysfwrdd hwn i arddangos gwybodaeth am anghenion iechyd risg uchel, cynorthwywyr cyntaf a thystysgrifau, gweithdrefnau argyfwng, ac ati NEU Yn dilyn caniatâd priodol, caiff y wybodaeth ei chadw o fewn ardal mewnrwyd ddiogel yr ysgol a bydd cyfarfodydd staff yn cael eu defnyddio i helpu i sicrhau bod y staff yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd dysgwyr y maent neu efallai y byddant yn dod i gysylltiad â nhw.

Bydd rhieni a dysgwyr yn bartneriaid gweithgar, ac i gyflawni hyn bydd yr ysgol yn gwneud rhieni'n gwbl ymwybodol o'r gofal y mae eu plant yn eu derbyn. Bydd rhieni a dysgwyr hefyd yn cael gwybod am eu hawliau a'u cyfrifoldebau eu hunain. Er mwyn helpu i gyflawni hyn bydd yr ysgol:

- yn sicrhau bod polisïau anghenion gofal iechyd ar gael yn rhwydd ac yn hygyrch, ar–lein ac mewn copi caled
- yn rhoi copi o'u polisi rhannu gwybodaeth i'r dysgwr / rhieni, gan nodi'r math o gyrff ac unigolion y gellir rhannu gwybodaeth feddygol y dysgwr â nhw
- yn gofyn i rieni lofnodi ffurflen ganiatâd sy'n nodi'n glir y cyrff, yr unigolion a'r dulliau y bydd gwybodaeth feddygol y dysgwr yn cael ei rhannu drwyddynt. Bydd y dysgwr yn rhan o unrhyw benderfyniadau. Bydd yr ysgol yn cadw rhestr o'r wybodaeth sydd wedi'i rhannu gyda phwy a pham. Bydd y dysgwr / rhiant yn gallu gweld hyn ar gais
- yn ystyried cynnwys cyswllt gwe i'r polisïau anghenion gofal iechyd mewn cyfathrebiadau perthnasol a anfonir at rieni, ac o fewn Cynllun Gofal Iechyd Unigol y dysgwr
- yn cynnwys cynghorau ysgol, 'ysgolion iach' a grwpiau dysgwyr eraill wrth ddatblygu trefniadau anghenion gofal iechyd yr ysgol, lle bo hynny'n briodol

• ystyried sut y gall grwpiau cyfeillgarwch a chyfoedion gynorthwyo dysgwyr, e.e. gallent ddysgu'r sbardunau neu'r arwyddion bod y dysgwr yn cael problemau, gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng ac i bwy ddylent ofyn

am help. Os yw hyn yn cael ei ystyried, bydd yr ysgol yn trafod gyda'r dysgwr a'r rhieni yn gyntaf i benderfynu a ellir rhannu gwybodaeth

Gweithdrefnau a chadw cofnodion er mwyn rheoli anghenion gofal iechyd dysgwyr

Bydd angen i'r ysgol nodi yn y fan hon enwau / rolau / cyfrifoldebau'r holl staff sy'n ymwneud â nodi, rheoli a gweinyddu anghenion gofal iechyd. Mae enghreifftiau o dempledi y gellir eu defnyddio yn Atodiad 2 y Ddogfen Ganllawiau ac maent wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 y polisi hwn. Yn ychwanegol at enwau'r staff, dylid nodi'r canlynol:

Dylai'r dogfennau canlynol gael eu casglu a'u cynnal ar gyfer y dysgwr, lle bo'n briodol:

1. Manylion cyswllt y gwasanaethau brys
2. Cytundeb rhieni i'r lleoliad addysgol i weini meddyginiaeth
3. Cytundeb pennaeth y lleoliad addysgol i weini meddyginiaeth
4. Cofnod o feddyginiaeth wedi'i storio a'i gweini i ddysgwr unigol
5. Cofnod o feddyginiaethau a weinir i bob dysgwr yn ôl dyddiad *
6. Cais i ddysgwr weini meddyginiaeth ei hun
7. Cofnod hyfforddi staff – gweini meddyginiaethau
8. Adroddiad digwyddiad yn ymwneud â meddyginiaeth

Mae enghreifftiau o'r ffurflenni / templedi hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad 1. Bydd cofnodion newydd yn cael eu llenwi pan fydd newid i feddyginiaeth neu ddos. Bydd yr ysgol yn nodi'n glir nad yw hen ddogfennau'n berthnasol bellach a bydd y rhain yn cael eu storio yn unol â'r Polisi Cadw Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data 1998.
*Bydd Dogfen 5, *Cofnod o feddyginiaethau a weinir* hefyd yn rhoi manylion os yw'r dysgwr wedi gwrthod cymryd eu meddyginiaeth.

Storio, mynediad a gweini meddyginiaeth a dyfeisiadau

Bydd gan yr ysgol ei pholisïau a'i gweithdrefnau ei hun ar gyfer storio ac ati, ond nodir bod yr egwyddorion cyffredinol a amlinellwyd yng Nghanllawiau LIC yn arfer da yn y maes hwn:

Cyflenwi meddyginiaeth neu ddyfeisiadau – Ni ddylai'r ysgol gadw meddyginiaeth dros ben a gofynnir i rieni ddarparu cyflenwadau priodol. Dylai'r rhain fod yn eu cynhwysydd gwreiddiol, wedi'u labelu gydag enw'r dysgwr, enw'r feddyginiaeth,

dosiad ac amlder, a dyddiad dod i ben. Bydd yr ysgol yn derbyn dim ond meddyginiaethau a dyfeisiau rhagnodedig sydd:

• yn gyfredol
• â'r cynnwys wedi ei labelu'n gywir ac yn glir
• ag enw'r dysgwr ar y label
• yn cynnwys cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer gweini, dosio a storio
• yn y cynhwysydd / pecyn gwreiddiol fel y rhoddwyd gan y fferyllydd (ac eithrio inswlin sydd ar gael yn gyffredinol trwy bin inswlin neu bwmp).

Lle mae meddyginiaeth heb bresgripsiwn yn cael ei chadw gan yr ysgol, e.e. paracetamol hylifol, dylai fod:
• yn gyfredol
• â'r cynnwys wedi ei labelu'n gywir ac yn glir
• ag enw'r dysgwr ar y label
• yn cynnwys cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer gweini, dosio a storio – gall y rhiant ddarparu'r rhain
• bod yn y cynhwysydd / pecyn gwreiddiol.

Storio, mynediad a gwaredu – Er y dylid cadw pob meddyginiaeth yn ddiogel, y math o feddyginiaeth a'r defnydd ohoni sy'n penderfynu sut mae hyn yn digwydd. Bydd y dysgwr yn cael gwybod lle mae eu meddyginiaeth yn cael ei storio a sut i gael gafael ynddi.

- Cadw'n oer: Ar gyfer meddyginiaethau y mae angen eu cadw'n oer, bydd angen monitro tymheredd yr oergell yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei bod yn unol â gofynion storio. Efallai y bydd bwyd yn cael ei storio yn yr oergell ond bydd y meddyginiaethau'n cael eu cadw mewn cynhwysydd aerglos ac wedi'u labelu'n glir. Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio oergell feddygol y gellir ei chloi os oes angen storio symiau mawr o feddyginiaeth. DEWISOL AR GYFER YSGOLION MWY
- Meddyginiaeth argyfwng: Bydd meddyginiaeth argyfwng ar gael yn rhwydd i ddysgwyr sydd ei hangen bob amser yn ystod y dydd neu yn ystod gweithgareddau oddi ar y safle. Bydd meddyginiaethau a dyfeisiau megis anadlyddion asthma, mesuryddion profi glwcos gwaed ac awto-chwistrellwyr adrenalin (pinnau) ar gael yn rhwydd i ddysgwyr heb eu cloi i ffwrdd. Rhoddir ystyriaeth arbennig i hyn pan fydd y dysgwr i ffwrdd o safle'r ysgol, e.e. ar deithiau. Os yw'r feddyginiaeth argyfwng yn gyffur rheoledig, fe'i cedwir mor ddiogel â phosib er mwyn lleihau'r risg o fynediad anawdurdodedig tra ar yr un pryd yn caniatáu mynediad cyflym os bydd hyn yn angenrheidiol mewn argyfwng. Er enghraifft, ni chaiff allweddi eu cadw yn bersonol gan aelod o staff. Gall dysgwr sydd yn cymryd cyffur rheoledig ar bresgripsiwn ei gadw'n gyfreithlon yn ei feddiant, os yw'n gymwys i wneud hynny, ac ni chaiff ei drosglwyddo i ddysgwr arall neu berson arall anawdurdodedig. Efallai y bydd angen

monitro. Pan fydd staff yn gweinyddu meddyginiaeth argyfwng i ddysgwr, cofnodir hyn.

☐ Meddyginiaethau nad ydynt yn rhai argyfwng: Cedwir pob meddyginiaeth nad yw'n feddyginiaeth argyfwng mewn man diogel gyda rheolau tymheredd neu olau priodol. Os yw'n gyffur rheoledig, bydd mesurau a rheolaethau diogelwch ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith.

• Gwaredu meddyginiaethau: Pan na fydd eu hangen mwyach, bydd meddyginiaethau'n cael eu dychwelyd i rieni i drefnu eu gwaredu'n ddiogel. Bydd blychau offer miniog yn cael eu defnyddio bob amser ar gyfer gwaredu nodwyddau ac offerynnau miniog eraill, a'u gwaredu'n briodol

Gweini meddyginiaethau

- Pan fo'r dysgwr dan 16 oed, rhaid cael caniatâd ysgrifenedig rhieni i gynorthwyo i weini neu i weini neu feddyginiaethau rhagnodedig neu anragnodedig, oni bai bod cymhwysedd Gillick wedi'i gofnodi. Bydd pob achos o weini meddyginiaeth yn cael ei gofnodi.
- Pan fydd meddyginiaeth wedi'i rhagnodi i gael ei chymryd ar adegau sy'n caniatáu i'r cwrs meddyginiaeth dyddiol gael ei weini yn y cartref, dylai rhieni geisio gwneud hynny, e.e. cyn ac ar ôl ysgol ac yn y nos. Bydd achosion lle nad yw hyn yn briodol.

☐ Ni fydd dysgwyr o dan 16 oed byth yn cael asbirin na meddyginiaeth yn cynnwys asbirin heb bresgripsiwn.

- Oni bai bod cynllun wedi ei gytuno i'r dysgwr weini ei feddyginiaeth ei hun (16 mlwydd oed neu'n uwch neu gymwys yn ôl meini prawf Gillick), bydd pob meddyginiaeth yn cael ei gweini gan aelod o staff. Mewn achosion eraill, efallai y bydd angen goruchwyliaeth yn unol â'r Cynllun Gofal Iechyd Unigol.

☐ Dim ond gan staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol y caiff meddyginiaeth ei gweini. Bydd symudiad a lleoliad y staff hyfforddedig hyn yn cymryd i ystyriaeth leoliad y dysgwyr y maent yn eu cefnogi.

☐ Bydd staff yn gwirio'r dos uchaf a faint ac amser unrhyw ddos blaenorol a weiniwyd.

- Gall fod angen i rai gweithdrefnau meddygol gael eu gweini gan oedolyn o'r un rhyw â'r dysgwr, ac efallai y bydd angen ail oedolyn yn dyst. Rhoddir ystyriaeth i feddyliau a theimladau'r dysgwr ynglŷn â nifer a rhyw y rhai sy'n cynorthwyo i ddarparu gofal personol. Nid yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i fwy nag un person gynorthwyo a bydd hyn yn cael ei gytuno a'i adlewyrchu yn y Cynllun Gofal Iechyd Unigol a'r asesiad risg.

☐ Bydd yr ysgol yn dilyn ei pholisi Gofal Agos oni bai bod trefniadau amgen wedi'u cytuno a'u cofnodi yng Nghynllun Gofal Iechyd Unigol y dysgwr.

☐ Os yw dysgwr yn gwrthod eu meddyginiaeth, bydd y staff yn cofnodi hyn ac yn dilyn y gweithdrefnau diffiniedig sy'n hysbysu rhieni cyn gynted ag y bo modd. Os yw dysgwr yn camddefnyddio unrhyw feddyginiaeth,

hysbysir eu rhieni cyn gynted ag y bo modd. Bydd yr ysgol yn gofyn i'r rhieni geisio cyngor gofal iechyd fel bo'n briodol. Os na ellir cysylltu â rhieni ar unwaith, bydd y staff yn ystyried ceisio cyngor gofal iechyd ar unwaith.

- Bydd staff sy'n ymwneud â gweini meddyginiaeth yn ymgyfarwyddo â sut mae dysgwyr yn rhoi caniatâd i driniaeth. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn gan Lywodraeth Cymru yn y Cydsyniad Cleifion i Archwiliad a Thriniaeth – Canllawiau Diwygiedig (GIG, 2008).

☐ Bydd yr holl staff sy'n cefnogi ymweliadau oddi ar y safle yn ymwybodol o ddysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Byddant yn derbyn y wybodaeth ofynnol i sicrhau bod staff yn gallu hwyluso profiad cyfartal i'r dysgwr. Gall y wybodaeth hon gynnwys materion iechyd a diogelwch, beth i'w wneud mewn argyfwng ac unrhyw gefnogaeth angenrheidiol arall y mae ei hangen ar y dysgwr, gan gynnwys meddyginiaeth ac offer.

Gweithdrefnau argyfwng

Bydd angen i ysgolion amlinellu eu gweithdrefnau argyfwng yma – gan nodi:

• beth i'w wneud mewn sefyllfa argyfwng
• pwy sy'n gyfrifol am y weithdrefn argyfwng
• manylion cyswllt yr unigolyn cymorth cyntaf enwebedig
• lleoliad cofnodion anghenion gofal iechyd a manylion cyswllt argyfwng (e.e. rhieni / gofalwyr)

Gallai'r cyflwyniad i'r adran hon gynnwys y manylion canlynol:

Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod polisi yn ei le ar gyfer ymdrin â sefyllfaoedd argyfwng. Hysbysir staff pwy sy'n gyfrifol am y polisi, unigolion cymorth cyntaf a enwebwyd a sut i ymdrin ag anghenion gofal iechyd cyffredin. Mewn sefyllfaoedd lle mae angen cymorth brys, gelwir 999 ar unwaith. Bydd staff yn cael gwybod am leoliad cofnodion gofal iechyd dysgwyr a manylion cyswllt mewn argyfwng.

Pan fydd gan ddysgwr Gynllun Gofal Iechyd Unigol, bydd y cynllun yn diffinio'n glir beth yw argyfwng ac yn esbonio beth i'w wneud o dan yr amgylchiadau hyn. Bydd staff yn ymwybodol o symptomau a gweithdrefnau argyfwng.

Bydd dysgwyr eraill yn yr ysgol hefyd yn cael eu cynghori, yn gyffredinol, beth i'w wneud mewn argyfwng, megis rhoi gwybod i aelod o staff ar unwaith. Os oes angen mynd â dysgwr i'r ysbyty, bydd aelod o'r staff yn aros gyda'r dysgwr nes bydd rhiant yn cyrraedd. Mae hyn yn cynnwys mynd gyda nhw mewn ambiwlans i'r ysbyty. Bydd yr aelod o staff yn cael manylion unrhyw anghenion gofal iechyd a meddyginiaeth hysbys.

Hyfforddiant

Dylai ysgolion sicrhau eu bod yn nodi:

• sut y bydd yr ysgol yn codi ymwybyddiaeth o gyflyrau cyffredin
• sut y bydd nifer digonol o staff yn cael eu dynodi a'u cefnogi
• bod hyfforddiant perthnasol yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y staff yn gymwys ac yn hyderus i gefnogi dysgwyr
• gweithdrefnau ar gyfer cadw cofnodion cyfredol o ddyddiad ac enw'r hyfforddiant, hyfforddwyr, hyfforddeion, tystysgrifau, hysbysu'r ALl
– proses sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru;
– gwneud staff newydd a staff dros dro yn ymwybodol o anghenion gofal iechyd
– sicrhau bod gan yr holl staff ymwybyddiaeth sylfaenol o gyflyrau meddygol cyffredin i adnabod symptomau a deall sut i geisio cymorth priodol.

Gallai'r wybodaeth ganlynol fod yn sail i gyflwyniad i'r adran hon.

Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod staff sy'n gwirfoddoli neu sy'n cael eu contractio i gefnogi'r rhai hynny sydd ag anghenion gofal iechyd yn cael hyfforddiant priodol.

Wrth gynorthwyo dysgwyr â'u hanghenion gofal iechyd, mae'r ysgol yn cydnabod nad oes angen hyfforddiant arbenigol ar gyfer llawer o ymyriadau a rôl staff yw hwyluso'r dysgwr i ddiwallu eu hanghenion gofal iechyd eu hunain.

Lle mae'r Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol yn adlewyrchu anghenion cymhleth sy'n gofyn bod gan staff wybodaeth a hyfforddiant penodol, bydd yr ysgol yn gofyn i'r gwasanaethau hyn a / neu'r awdurdod lleol ddarparu cyngor sy'n addas i'r ysgol yn ogystal â dysgwyr a theuluoedd.

Gall pob aelod o staff, p'un a ydynt wedi gwirfoddoli i gynorthwyo neu gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd, ddod i gysylltiad â dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd. Felly, bydd gan yr holl staff ddealltwriaeth sylfaenol o gyflyrau cyffredin i sicrhau eu bod yn adnabod symptomau a deall ble i geisio cymorth priodol.

Cymwysterau ac asesiadau

Bydd angen i ysgolion roi gwybodaeth am eu trefniadau eu hunain yn yr adran hon. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell i chi: –

• amlinellu sut y bydd yr ysgol yn darparu cymorth effeithiol i ddysgwyr sydd angen EOTAS oherwydd anghenion gofal iechyd
• amlinellu eich gweithdrefnau ar gyfer cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd
ymgymryd â chymwysterau ac asesiadau, gangynnwys:
– pan fydd angen sefyll arholiadau i ffwrdd o'r ysgol, e.e. adref;
– trefniadau arbennig gan gyrff dyfarnu
– addasiadau, neu pan fydd angen amserychwanegol

Cludiant ysgol

Os yw cludiant ysgol yn cael ei ystyried ar gyfer dysgwr sydd ag anghenion meddygol, fe gysylltir â Gwasanaeth Cynhwysiant yr awdurdod lleol.

Adolygu polisïau, trefniadau a gweithdrefnau

Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod yr holl bolisïau, trefniadau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan yr ysgol. Bydd Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol yn cael eu hadolygu fel bo'r angen. Bydd amlder yr adolygiadau yn dibynnu ar ffactorau megis yr angen gofal iechyd, newidiadau yn y cyflwr neu mewn meddyginiaeth. Bydd yr adolygiadau hyn yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys, lle bo'n briodol, y dysgwr, rhieni, gweithwyr proffesiynol addysg ac iechyd a chyrff perthnasol eraill.

Trefniadau yswiriant

Gall yr ysgol amlinellu eu trefniadau yswiriant yma. Mae'r paragraff yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi:

Dylai'r Corff Llywodraethu sicrhau bod lefel briodol o yswiriant yn ei le i gwmpasu gweithgareddau'r lleoliad wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd. Bydd lefel yr yswiriant yn adlewyrchu lefel y risg yn briodol. Efallai y bydd angen trefnu yswiriant ychwanegol ar gyfer rhai gweithgareddau, e.e. gweithgareddau oddi ar y safle ar gyfer dysgwyr ag anghenion penodol.

Gweithdrefn gwyno

Nodyn: Crynhowch weithdrefn gwyno eich ysgol a'i chynnwys yma..

Cynlluniau gofal iechyd unigol (IHPs)

Dylai ysgolion amlinellu sut y byddant yn creu IHP, gan gynnwys:
- pwrpas IHP
- pryd y bydd IHP yn briodol
- beth fydd yr IHP yn ei gynnwys
- cyfrifoldebau a swyddogaethau o ran creu IHP

Rhoddir gwybodaeth o ddogfen Ganllawiau Llywodraeth Cymru isod ond efallai y bydd ysgolion eisiau addasu hyn i gyd-fynd â'u prosesau presennol.

Mae Cynllun Gofal Iechyd Unigol (IHP) yn nodi pa gymorth sydd ei angen ar ddysgwr. Nid oes angen iddynt fod yn hir neu'n gymhleth. *(Nodyn: Mewnosod enw aelod staff)* sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros ddatblygu'r cynlluniau hyn. Mae Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol yn hanfodol lle mae anghenion gofal iechyd yn gymhleth, yn amrywio, yn dymor hir neu lle mae risg uchel y bydd angen ymyriad argyfwng. Fodd bynnag, nid oes angen Cynllun Gofal Iechyd Unigol ar bob dysgwr sydd ag anghenion gofal iechyd ac mae'r diagram canlynol yn amlinellu'r broses y bydd yr ysgol yn ei dilyn er mwyn nodi a oes angen cynllun.

Nodi dysgwyr sydd ag anghenion gofal iechyd

- Mae'r dysgwr yn cael ei adnabod o ffurflen gofrestru neu lwybr arall **neu** mae'r rhiant / dysgwr yn hysbysu'r ysgol o'r angen gofal iechyd.
- Ar gyfer dysgwyr sy'n newydd i'r ysgol, cynhelir trafodaethau pontio mewn da bryd, e.e. wyth wythnos naill ai cyn diwedd y tymor neu cyn symud i leoliad addysg newydd.

Casglu gwybodaeth

• Os yw'n bosib y bydd angen IHP, bydd yr ysgol yn trafod hyn gyda'r rhiant a'r dysgwr.

Penderfynu a ddylid creu IHP

- Bydd yr ysgol yn trefnu cyfarfod gyda staff priodol, y rhieni, y dysgwr a'r staff Iechyd priodol i gadarnhau a yw anghenion gofal iechyd y dysgwr yn gwneud IHP yn ofynnol. Os na ellir cyrraedd cytundeb, bydd y pennaeth yn cymryd y penderfyniad terfynol ac, os oes angen, gellir herio hyn trwy weithdrefn gwyno'r ysgol.

Os bydd IHP yn cael ei greu

• Bydd yr ysgol, o dan arweiniad y gweithwyr proffesiynol gofal iechyd priodol, y rhieni a'r dysgwr, yn datblygu'r IHP mewn partneriaeth.

• Bydd yr ysgol yn nodi staff priodol i gefnogi'r dysgwr, gan gynnwys nodi unrhyw anghenion hyfforddiant a ffynhonnell yr hyfforddiant, a gweithredu hyfforddiant.

• Bydd yr ysgol yn dosbarthu'r IHP i bob unigolyn priodol.

• Bydd yr ysgol yn pennu dyddiad adolygu priodol ac yn diffinio unrhyw ffactorau eraill a all sbarduno adolygiad

Bydd y Cynllun Gofal Iechyd Unigol yn egluro sut y gellir diwallu anghenion y dysgwr. Bydd ar gael yn hawdd i bawb sydd angen cyfeirio ato, tra'n cynnal y

lefelau preifatrwydd gofynnol. Bydd pob cynllun yn dal gwybodaeth allweddol a chamau gweithredu sydd eu hangen i gefnogi'r dysgwr yn effeithiol. Gall datblygu Cynlluniau Gofal Iechyd Unigol manwl gynnwys:

• y dysgwr
• y rhieni
• mewnbwn neu wybodaeth o'r lleoliad neu'r ysgol flaenorol
• gweithwyr gofal iechyd proffesiynol priodol
• gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol
• y pennaeth a / neu'r unigolyn dirprwyedig sy'n gyfrifol am anghenion gofal iechyd ar draws y lleoliad
• athrawon a staff cymorth, gan gynnwys staff arlwyo
• unrhyw unigolion â rolau perthnasol megis cydlynydd cymorth cyntaf, swyddog lles, a chydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (ALNCo).

Caiff y cynllun ei deilwra i bob dysgwr unigol ond, yn gyffredinol, gall gynnwys:

• manylion yr angen gofal iechyd a disgrifiad o'r symptomau
• gofynion penodol megis gofynion dietegol, rhagofalon cyn gweithgaredd (e.e. cyn dosbarthiadau addysg gorfforol)
• gofynion meddyginiaeth, e.e. dos, sgîl–effeithiau, gofynion storio, trefniadau ar gyfer gweini
• datganiad effaith (a lunnir ar y cyd gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol ac athro) ynghylch sut mae cyflwr ac / neu driniaeth gofal iechyd y dysgwr yn effeithio ar eu dysgu a pha gamau sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r effeithiau hyn
• camau sydd eu hangen
• gweithdrefnau argyfwng a manylion cyswllt
• y rôl y gall yr ysgol ei chwarae, e.e. rhestr o bethau i fod yn ymwybodol ohonynt
• dyddiadau adolygu a ffactorau sy'n sbarduno adolygiad
• swyddogaethau staff penodol, e.e. pwynt cyswllt ar gyfer rhieni, staff sy'n gyfrifol am weini / goruchwylio meddyginiaeth, a threfniadau amgen yn eu habsenoldeb
• materion caniatâd / preifatrwydd / rhannu gwybodaeth sensitif
• anghenion hyfforddi staff, megis mewn perthynas â gweini gofal iechyd, cymhorthion a thechnolegau addasol
• cadw cofnodion – sut y bydd yn cael ei wneud, a pha wybodaeth sy'n cael ei chyfathrebu i eraill
• cludiant o'r cartref i'r ysgol – cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw hwn, a gallai fod o gymorth iddo fod yn ymwybodol o Gynllun Gofal Iechyd Personol y dysgwr, yn enwedig mewn perthynas â sefyllfaoedd argyfwng.

Nod y cynllun yw dynodi'r camau y mae angen eu cymryd i helpu dysgwr i reoli eu cyflwr a goresgyn unrhyw rwystrau posibl i gymryd rhan yn llawn mewn

addysg. Cytunir ar berson arweiniol, ond yr ysgol sy'n gyfrifol o hyd am sicrhau ei fod yn cael ei gwblhau a'i weithredu.
Bydd y Corff Llywodraethu yn sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu hadolygu o leiaf unwaith y flwyddyn neu'n amlach pe bai tystiolaeth newydd bod anghenion y dysgwr wedi newid. Bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu gyda lles gorau'r dysgwr mewn golwg gan sicrhau bod yr ysgol, gyda gwasanaethau arbenigol (os oes angen), yn asesu'r risgiau i addysg, iechyd a lles cymdeithasol y dysgwr.
Os oes gan ddysgwr Anghenion Dysgu Ychwanegol, bydd y Cynllun Gofal Iechyd Unigol yn gysylltiedig ag unrhyw gynllun neu ddatganiad addysg / datblygiad unigol.

Ymarfer annerbyniol

- Fel y nodir yng Nghanllawiau Llywodraeth Cymru, nid yw'n ymarfer derbyniol:

- atal dysgwyr rhag mynychu lleoliad addysg oherwydd eu hanghenion gofal iechyd, oni bai fod y ffaith eu bod yn mynychu'r lleoliad yn debygol o achosi niwed i'r dysgwr neu i eraill
- atal dysgwyr rhag cael mynediad at eu hanadlyddion neu feddyginiaeth arall yn hawdd, a'u hatal rhag cymryd eu meddyginiaeth pan fo angen
- cymryd yn ganiataol bod pob dysgwr sydd â'r un cyflwr angen yr un driniaeth
- anwybyddu barn y dysgwr neu eu rhieni, neu anwybyddu tystiolaeth neu farn gofal iechyd (er y gellid cwestiynu'r safbwyntiau hyn a cheisio barn ychwanegol yn brydlon)
- anfon dysgwyr ag anghenion gofal iechyd adref yn aml neu eu hatal rhag aros am weithgareddau arferol, gan gynnwys cinio, oni bai fod hyn wedi'i nodi'n briodol yn eu Cynllun Gofal Iechyd Unigol
- anfon dysgwr sy'n mynd yn sâl neu angen cymorth i ystafell feddygol neu brif swyddfa heb neb yn eu hebrwng neu gyda rhywun nad yw'n gallu eu monitro'n briodol
- cosbi dysgwr am eu cofnod presenoldeb os yw'r absenoldeb yn gysylltiedig â'u hanghenion gofal iechyd. Ni ddylid defnyddio 'absenoldebau awdurdodedig' gan gynnwys apwyntiadau gofal iechyd, amser i deithio i'r ysbyty neu apwyntiad, ac amser adfer o driniaeth neu salwch i gosbi dysgwr mewn unrhyw fodd. Mae hyn yn cynnwys cyfranogiad mewn gweithgareddau, teithiau neu wobrau sy'n gysylltiedig â chofnodion presenoldeb da, ond heb eu cyfyngu i hynny.

• gofyn am addasiadau neu amser ychwanegol i ddysgwr yn rhy hwyr. Dylent wneud cais amdanynt mewn da bryd. Dylid ystyried hefyd addasiadau neu amser ychwanegol sydd eu hangen mewn ffug arholiadau neu brofion eraill

• atal dysgwyr rhag yfed, bwyta neu fynd i'r tŷ bach neu gymryd hoe pryd bynnag y mae angen hynny er mwyn rheoli eu hanghenion gofal iechyd yn effeithiol
• yn mynnu bod rhieni, yn mynychu'r lleoliad addysg, taith neu weithgaredd arall oddi ar y safle i weini meddyginiaeth neu ddarparu cymorth gofal iechyd i'r dysgwr, gan gynnwys i fynd i'r tŷ bach, neu wneud iddynt deimlo bod dyletswydd arnynt i wneud hynny.
• yn disgwyl neu'n achosi i riant roi'r gorau i'w waith neu ymrwymiadau eraill oherwydd bod y lleoliad addysg yn methu â chefnogi anghenion gofal iechyd dysgwr
• gofyn i ddysgwr adael yr ystafell ddosbarth neu weithgaredd os ydynt angen gweini meddyginiaeth nad yw'n bersonol neu fwyta bwyd yn unol â'u hanghenion iechyd
• atal neu greu rhwystrau dianghenraid i gyfranogiad dysgwr mewn unrhyw agwedd ar eu haddysg, gan gynnwys teithiau, e.e. trwy ofyn bod rhiant yn mynd gyda'r dysgwr.

Bydd angen i ysgolion ychwanegu yma sut mae staff yn cael gwybod beth yw'r 'arferion annerbyniol' a'r mesurau sydd yn eu lle i'w hatal rhag digwydd.

TEMPLEDI

Ffurflen 1	–	Cysylltu â'r gwasanaethau brys
Ffurflen 2	–	Cydsyniad rhieni i'r lleoliad addysg i weini meddyginiaeth
Ffurflen 3	–	Cytundeb Pennaeth y lleoliad i weini meddyginiaeth
Ffurflen 4	–	Cofnod o feddyginiaeth wedi'i storio a'i gweini i ddysgwr unigol
Ffurflen 5	–	Cofnod o feddyginiaethau a weinir i bob dysgwr – yn ôl dyddiad
Ffurflen 6	–	Cais ar i'r dysgwr gario / gweini ei feddyginiaeth ei hun
Ffurflen 7	–	Cofnod hyfforddiant staff – gweini meddyginiaethau
Ffurflen 8	–	Adroddiad ar Ddigwyddiad Meddyginiaeth / Gofal lechyd

Gellir lawrlwytho'r ffurflenni hyn fel dogfennau Word fel y gall ysgolion neu leoliadau i'w personoli.

learning.gov.wales/resources/browse-all/supporting-learners-with-healthcare-needs/?lang=en

Ffurflen 1

Cysylltu â'r gwasanaethau brys	
Cais am Ambiwlans Galwch 999, gofynnwch am ambiwlans a byddwch yn barod gyda'r wybodaeth ganlynol lle bo modd.	
1	Nodwch eich rhif ffôn
2	Rhowch eich lleoliad fel a ganlyn: *(Rhowch gyfeiriad)*
3	Nodwch mai'r cod post yw: (*rhowch eich cod post*)
4	Rhowch yr union leoliad yn y lleoliad addysg *(Rhowch ddisgrifiad byr)*
5	Rhowch eich enw
6	Rhowch enw'r dysgwr a disgrifiad byr o symptomau
7	Hysbyswch y rheolwr Ambiwlans o'r fynedfa orau a datganwch y bydd y criw cwrdd ac yn mynd i *(rhowch yr enw)*
8	Peidiwch â gorffen yr alwad hyd nes i'r wybodaeth gael ei ailadrodd yn ôl
– Siaradwch yn glir ac yn araf a byddwch yn barod i ailadrodd y wybodaeth os gofynnir i chi wneud hynny – Rhowch gopi wedi'i chwblhau o'r ffurflen hon wrth yr holl ffonau yn y lleoliad addysg.	

Ffurflen 2

Cydsyniad rhieni i'r lleoliad addysg weini meddyginiaeth

Mae (Nodi enw'r ysgol) angen eich caniatâd i roi meddyginiaeth i'ch plentyn. Llenwch a llofnodwch y ffurflen hon i ganiatáu hyn.

Enw'r Ysgol	
Enw'r Plentyn	
Dyddiad Geni	
Grŵp / dosbarth / blwyddyn	
Anghenion Gofal Iechyd	

Meddyginiaeth

Enw / math o feddyginiaeth (fel y disgrifir ar y cynhwysydd)			
Dyddiad dosbarthu	/ /	Dyddiad Dod i ben	/ /

Dyddiad cychwyn cytunedig i'w gychwyn gan (enw'r aelod o staff)

Dos a dull	
Amser	
Rhagofalon arbennig	
A oes unrhyw sgîl-effeithiau y mae angen i'r ysgol wybod	

amdanynt?	
Hunanweinyddiaeth (dileu fel y bo'n briodol)	Ie / Na

Gweithdrefnau i'w cymryd mewn argyfwng	

Manylion Cyswllt

Enw	
Rhif ffôn (dydd)	
Perthynas gyda'r plentyn	
Cyfeiriad	

Rwy'n deall bod rhaid i mi gyflwyno'r feddyginiaeth yn bersonol i (*aelod o staff y cytunwyd arno)*.

Rwy'n deall bod rhaid i mi hysbysu'r lleoliad o unrhyw newidiadau ysgrifenedig.

Llofnod	

Dyddiad	

Ffurflen 3

Cytundeb Pennaeth yr Ysgol / Pennaeth y lleoliad i weini meddyginiaethau

Enw'r lleoliad	

Cytunir y bydd (enw'r dysgwr) ..... yn derbyn (maint neu ystod maint ac enw'r feddyginiaeth) .... bob dydd ar .... (amser gweini'r feddyginiaeth, ee egwyl cinio / seibiant prynhawn).

Bydd *(Enw'r dysgwr)* ..... yn cael / eu goruchwylio tra byddant yn cymryd eu meddyginiaeth gan (enw'r aelod o staff).....

Bydd y trefniant hwn yn parhau tan (naill ai dyddiad diwedd cwrs meddyginiaeth neu hyd nes y bydd rhieni / gofalwyr yn dweud wrthym) .....

Dyddiad	
Llofnod	

(Y pennaeth / pennaeth y lleoliad / aelod o'r staff a enwir)

Ffurflen 4

Cofnod o feddyginiaeth wedi'i storio a'i gweini i ddysgwr unigol

Enw'r lleoliad	
Enw'r dysgwr	
Dyddiad y darperir y feddyginiaeth gan riant	
Grŵp / dosbarth / blwyddyn	
Nifer a dderbyniwyd	
Enw a chryfder y feddyginiaeth	
Dyddiad dod i ben	
Nifer a ddychwelwyd	
Dos ac amlder meddyginiaeth	
Llofnod staff	

Llofnod rhiant/gwarchodwr			
Dyddiad			
Amser a roddir			
Dos a roddir			
Enw aelod o staff			
Llythrennau cyntaf enw staff			
Dyddiad			
Amser a roddir			
Dos a roddir			
Enw aelod o staff			

Llythrennau cyntaf enw staff			

Dyddiad			
Amser a roddir			
Dos a roddir			
Enw aelod o staff			
Llythrennau cyntaf enw staff			

Dyddiad			
Amser a roddir			
Dos a roddir			
Enw aelod o staff			
Llythrennau cyntaf enw staff			

Dyddiad			
Amser a roddir			
Dos a roddir			
Enw aelod o staff			
Llythrennau cyntaf enw staff			

Form 5

Cofnod o feddyginiaethau a weinyddir i bob dysgwr – fesul dyddiad

Enw lleoliad	

Dyddiad	Enw dysgwr	Amser	Enw meddyginiaeth	Dos a roddir	Unrhyw adwaith	Llofnod staff	Printiwch enw

Ffurflen 6

Cais ar i'r dysgwr gario / gweini ei feddyginiaeth ei hun

Rhaid i'r rhiant / gwarchodwr lenwi'r ffurflen hon.

Os oes gan staff unrhyw bryderon, trafodwch y cais hwn gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

Enw lleoliad	
Enw dysgwr	
Grŵp / dosbarth / blwyddyn	
Cyfeiriad	
Enw meddyginiaeth	
Cario a gweini	Ie / Na
Gweini o leoliad storio	Ie / Na
Gweithdrefnau i'w rhoi mewn lle mewn argyfwng	

Gwybodaeth gyswllt

Enw	
Rhif ffôn (dydd)	
Perthynas i'r dysgwr	

Hoffwn i'm plentyn weini a / neu gario eu meddyginiaeth.

Llofnod rhiant/gwarchodwr	
Dyddiad	

Rwy'n cytuno i weini a / neu gario fy meddyginiaeth. Os ydw i'n gwrthod gweini fy meddyginiaeth fel y cytunwyd, yna bydd y cytundeb hwn yn cael ei adolygu.

Llofnod dysgwr	
Dyddiad	

Ffurflen 7

Cofnod hyfforddiant staff – gweini meddyginiaethau

Sicrhewch fod cofrestriad y Cyngor Gweithlu Addysg yn cael ei ddiweddaru yn unol â hynny.

Enw lleoliad	
Enw	
Math o hyfforddiant a dderbyniwyd	

Dyddiad cwblhau'r hyfforddiant	/ /
Hyfforddiant a ddarperir gan	
Proffesiwn a theitl	

Rwy'n cadarnhau bod (*enw aelod o'r staff*) ..... wedi derbyn yr hyfforddiant a nodir uchod ac yn gymwys i wneud unrhyw driniaeth angenrheidiol.

Argymhellaf fod yr hyfforddiant yn ddiweddariadau (*nodwch pa moraml*) .....

Llofnod hyfforddwr	
Dyddiad	

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi cael yr hyfforddiant a nodir uchod.

Llofnod staff	
Dyddiad	
Dyddiad adolygu a awgrymir	

Adroddiad Digwyddiad Meddyginiaeth / Gofal Iechyd

Enw'r dysgwr: _____

Cyfeiriad cartref: _____

Rhif ffôn: _____

Dyddiad y digwyddiad:_____Amser y digwyddiad: _____

Meddyginiaeth gywir a dos	

Meddyginiaeth fel arfer wedi'u gweini gan:

Dysgwr	
Dysgwyr dan oruchwyliaeth staff	
Nyrs/aelod o staff yr ysgol	

Math o wall:

Y dos yn cael ei weini 30 munud ar ôl amser wedi'i drefnu	
Eithriad	
Dos anghywir	
Dos ychwanegol	
Dysgwr anghywir	
Rhoddwyd dos heb ganiatâd ar ffeil	
Dietegol	
Dos sy'n cael ei weini gan berson anawdurdodedig	

Disgrifiad o'r digwyddiad:	

Camau a gymerwyd:

Hysbysu rhiant	*Enw*	*Dyddiad*	*Amser*
Hysbysu nyrs ysgol	*Enw*	*Dyddiad*	*Amser*
Hysbysu doctor	*Enw*	*Dyddiad*	*Amser*
Hysbysu rheolaeth gwenwyn			
Mynd a'r dysgwr adref			

Mynd a'r dysgwr i'r ysbyty	
Arall	*Rhowch fanylion*

Unrhyw wybodaeth bellach i'w nodi	